

Materion Gwasanaeth Cwsmer

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Pan fyddwch chi'n	Mi fyddwn ni
<p>Gwneud atgyfeiriad</p> <p>Atgyfeiriad yw cais a dderbynnir gan yr Awdurdod Lleol am asesiad am wasanaethau.</p> <p>Bydd hyn yn golygu gwneud cyswllt â'r plentyn a'r rhiant / gofalwr a'r asiantaethau / lleoliadau perthnasol. Bydd pob pryder o ran amddiffyn plant yn datblygu yn atgyfeiriad.</p>	<p>Yn ystyried ac yn gwneud penderfyniad ar yr atgyfeiriad o fewn 24 awr.</p>
<p>Os ydych yn gymwys i gael asesiad.</p> <p>Asesiad yw eistedd i lawr gydag unigolyn a gweithio allan beth ddylai ddigwydd er mwyn gwella eu sefyllfa, gweld beth y gallan nhw ei wneud a beth y mae angen i ni ei wneud.</p> <p>Mae gan unigolyn hawl i wrthod asesiad, ond gall y Gwasanaeth barhau i gynnal asesiad os credwn bod plentyn/person ifanc mewn perygl.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Yn eich cynnwys chi, eich teulu a'ch gofalwyr yn yr asesiad.• Yn gwrando ar eich barn ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd.• Gyda chi, yn nodi beth sy'n bwysig i chi ac yn nodi beth yw'r canlyniadau llesiant personol yr ydych chi eisiau eu cyflawni (ac yn achos plant, y canlyniadau y mae'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant yn dymuno eu gweld yn cael eu cyflawni ar gyfer y plentyn).• Yn edrych ar pa gymorth a gofal y mae gennych chi hawl iddo.• Yn sicrhau bod gennych ddealltwriaeth glir o ganlyniad yr asesiad a beth fydd yn digwydd nesaf.• Yn derbyn esboniad clir ynglŷn ag unrhyw bryderon pan fo pryderon yn bodoli a pham y mae hyn yn annerbyniol i'r adran. <p>Dylai pob asesiad ymdrin â'r pum prif faes canlynol o leiaf :-</p> <ul style="list-style-type: none">• Eich nodau personol chi neu'r

	<p>canlyniadau yr hoffech chi eu gweld.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa bethau fyddai'n eich rhwystro rhag cyrraedd eich nodau. • Beth sy'n digwydd yn eich bywyd ac o'ch cwmpas. • Eich cryfderau eich hun a pha bethau y gallwch chi eu gwneud i'ch helpu chi eich hun, ac • Unrhyw risgiau a allai effeithio ar unrhyw un o'r uchod.
<p>Os cewch eich asesu fel bod ag 'anghenion cymwys'</p> <p>Ar ôl cynnal asesiad, os oes gan unigolyn anghenion gofal a chymorth, bydd gofyn i ni ystyried beth y gellir ei wneud i'w diwallu.</p>	<p>Yn gweithio gyda chi i lunio cynllun gofal a chymorth sy'n amlinellu:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eich nodau personol a sut yr hoffech chi eu cyrraedd. • Pa anghenion y bydd y cynllun yn eu diwallu. • Pwy sy'n gwneud beth. • Beth sydd ei angen (gan gynnwys arian) ac o ble y daw. • Sut i wirio'r cynllun a gwneud newidiadau os oes angen. • Pwy yw'r prif berson cyswllt a fydd yn sicrhau y bydd y cynllun yn digwydd. <p>Byddwn hefyd yn adolygu'r cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried i ba raddau y mae cyflawni'r cynllun yn diwallu eich anghenion. • Gweld sut y mae wedi eich helpu chi a / neu eich teulu i gyflawni'r canlyniadau. • Penderfynu pa gymorth sydd ei angen yn y dyfodol, a chadarnhau, addasu neu ddod â gwasanaethau i ben. <p>Os credwn bod amgylchiadau rhywun sydd ag 'angen cymwys' wedi newid, rhaid i'r Gwasanaeth gynnal asesiad cymesur newydd ac adolygu'r cynllun yn unol â hynny.</p>

A oes unrhyw beth yr hoffech ei ddweud wrthym ni?

Rhowch wybod i ni os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud camgymeriad.

Byddem hefyd yn hoffi gwybod os ydych chi'n credu ein bod ni



wedi gwneud rhywbeth yn dda, neu os oes gennych chi sylw neu syniad ynghylch sut gallem ni wneud rhywbeth yn wahanol neu'n well.

Rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at

eich.llais@sirddinbych.gov.uk;

drwy ffonio 01824 706101; neu fe allwch lenwi ffurflen ar ein gwefan www.sirddinbych.gov.uk